Rhifyn Coffa y Parch. W. James, B.A., J.P., Llandyssul.

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 12.] RHAGFYR, 1907. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd. Alva.
Er Cof. Sarnicol.
Mr. James fel Cyfaill.
J. Gwenogfryn Evans, M.A., D.Litt.
Bywgraffiad.
R. J. Jones, M.A.
Mr. James fel Ysgolfeistr.
D. Evans, Cribyn.
Englynion. Dewi Hefin a Brynfardd.
Cymdeithas Deheu-Ddwyrain Cymru.
Cyfarfod Chwarterol y Gymdeithas Gymreig.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHÁ CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

B.D., Ystrad; E.P.J., Pontypridd; R.P., Great Molestone; D.T., Liverpool; J.J., Bargoed; W.S.J., Llanbedr; J.J., Castellnedd.

YN AWR YN BAROD, PRIS 2s. 6c.

Yr Hen a'r Newydd
mewn
Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS, B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r 'Ymofynydd', Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.



Y Parch. W. James, B.A., J.P.,

LLANDYSSUL.

Ganwyd Ebrill 13, 1848.
Bu farw Hydref 26, 1907.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1907-12_7_12

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1907. [CYF. VII. RHIF 12.

AR EDYN FFYDD.

I.

Hunodd brenhindad Brynhyfryd,
Daeth cwmwl i lasnen ei ddydd ;
Ond ha ! boreuddydd o wynfyd
I'w goffa—Brynhyfryd a fydd.

II.

Hunodd anwylyn Glan Teifi,
Cerdd galar dros fryndir a dôl ;
Ond ha ! fel gwyneb goleuni
Ei yrfa ariana o'i ol.

III.

Hunodd tywysog yr enwad,
Tra bywyd yn llathru ei gledd ;
Hunodd !—ond saif ei ddylanwad
I herio anghofrwydd a bedd.

IV.

Hunodd Arweinydd i Gymru,
Tŷf hiraeth a gofid i'w gwedd,
A phlyg fel mam i alaru
A chwyno yn ymyl ei fedd.

Alfa.

ER COF AM Y PARCH. W. JAMES, B.A., Y.H.

(*diweddar Olygydd* Yr Ymofynydd, *a hunodd nos Sadwrn, Hydref 26, yn 59 oed.*)

Nid yw'r nos, arwaf nos
Yn difwyno glas y nefoedd ;
Nis gall canrif o dymhestloedd
Ddatod pabell seren dlos.—*Elfed.*

TRA ystormydd Hydref yn rhuo rhwng dail gwywedig y goedwig, wele arall o gewri Ceredigion wedi syrthio—yn hydref einioes. Yr oedd llwydrew cynar bywyd wedi gwynu ei ben, yr oedd llafur a lludded y dydd wedi dwyn henaint cynar ar ei warthaf, ac wele ef heddyw wedi cwympo—ond nid cyn ymdrechu ymdrech deg, ac enill llwyr fuddugoliaeth yn mrwydr galed oes. Un oedd efe i'w restru nid yn unig gyda gwrolion ei gymdogaeth ei hun, nac hyd yn nod yn mysg cewri'r pwlpud Undodaidd, ond yn mhlith Cymry dewrion ei oes. Rhyddid a goleuni—anianol ac ysprydol oedd ei arwyddair, a bu fyw gystal a'i air, ac yn ddios, nid yw ei farwolaeth ond mynediad i mewn i'r rhyddid a'r goleuni diddiwedd at y rhai y cyrchai beunydd—

Ar Edyn Ffydd.

Er ei fod wedi tori ei gysylltiad—o herwydd gwendid corff—â'r misolyn bychan hwn er's rhai misoedd—eto teimlem ei fod genym o'r tu ol, a'i wên garuaidd a'i air o galondid fel eiddo tad serchlawn, yn ein hysprydoli bob amser.

Bu farw yn hydref cynar oes—pan y mae dyn yn aml yn ngrym addfedrwydd bywyd—ond nid wrth eu hyd yn unig y mae'r Nefoedd yn cyfrif ein dyddiau, ond hefyd wrth eu lled. Bywyd eang oedd ei eiddo ef ; carai ei gwmwd ei hun gyda chariad dwfn, ond yr oedd Cymru oll yn anwyl gan ei galon, a'i serch yn ymestyn tuag at holl deulu dyn hyd wyneb y ddaear.

Yr oedd ei wybodaeth yn ormod i'w farn fod yn gul, ac yr oedd ei galon yn rhy eang i lochesu rhagfarn yn erbyn neb. Ynddo ef yr oedd gwybodaeth a ffydd yn cydbreswylio mewn undeb perffaith. Darllenodd lawer, myfyriodd lawer—a mwy na hyny—gweddiodd lawer. Cyfranodd oleuni dysg yn yr ysgol ddyddiol ; ac ysprydolodd y bobl o'r pwlpud ; a chafodd llawer yn Nghymru fwyd i'r meddwl a'r yspryd yn ffrwyth ei ysgrifbin.

Gwr cryf a chadarn oedd, mewn meddwl ac yspryd ; a'i enaid yn rhy hoew i'r babell frau o bridd a breswyliai. Siaradai ac ysgrifenai yn blaen ; heb ormod o drwsio a chaboli. Gwirionedd yn ei symlder garw a hoffai, yn hytrach na diliau mêl darfodedig brawddegaeth farddonol. Iddo ef yr oedd y sylwedd yn fwy na'r wisg, y gwirionedd yn fater pwysicach na'r gair.

Wyla degau, ar ei ol, ond y mae heulwen cysur yn pelydru hyd yn nod trwy'r deigryn trymaf. Y mae melusder gobaith ar waelod cwpan dyfnaf galar. Gweithiodd yn galed tra parodd ei nerth, a

GWEITHIODD I BWRPAS;

y mae ei lafur eisoes wedi dwyn ffrwyth, a dug fwy eto yn y dyfodol. Wedi lludded maith y dydd, wedi holl helbulon oes, ar ol mil flinderau bywyd, y mae wedi derbyn gwobr oreu Duw—cael gorphwys yn dawel ac heddychol. Nodded y Nefoedd ei deulu hiraethus, a chysured hwy yn eu galar dwys. Ni wiw gofyn paham y daeth y wys gynared yn y dydd, gwn y gwnai ef gymeryd yr oll yn ffyddiog, gan wybod dirgelwch llwybrau'r Ior:—"Ei ffyrdd sydd yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd dyfnion." Y mae wedi croesi'r ffin y rhaid i'r holl deulu dynol ei chroesi ryw ddydd, ac er fod niwl dirgelwch erioed yn cuddio'r wlad tuhwnt i'r llen, nid yw'r Tad Nefol wedi cadw serch ei galon dragwyddol dan orchudd. Nid yw syrthiad dail yr Hydref ond parotoad ar gyfer Gwanwyn gwell. Nid yw marwolaeth ond dechreu ail fywyd.

"There is no death,
What seems so is transition,
This life of mortal breath
Is but a suburb of the life elysian
Whose portal we call Death."

SARNICOL.

MR. JAMES FEL CYFAILL.

Ceisir gennyf scrifenu colofn er cof am fy hen gyfeill—cyfeill fy mywyd er yn ugein oed. Nid hawdd gwaith hynny. Nid oes braidd ddim ag sydd wedi passio yn yn bywydeu nag yw ar gof a chadw fynghalon. Yr oeddem "drôd ymhwll" yn cydlawenhau ag yn cydalaru, yn cydweld ag yn cydymdeimlo ar yn taith yn y byd yma. Felly mae'n annodd i fi ddewis ble i ddechren aphle i ddibennu. Pe buaswn wedi gweld Mr. James dair gwaith ne bedeir buasei'n hawddawch lawer i weyd a wyddwn, ond nis gallaf roi hanes deugein mlynedd ar dudalen neu ddwy o'r YMOFYNYDD. Ond wele rai o'i nodweddion.

Ni fu mywn byd yspryd siriolach yn nythu dan fantell iechyd, a medrei wherthin mywn awr fwy na Methodist mywn mis. Nid gwneud swn mawr, ond wherthin bob modfedd o hono. Nid aeth sant i'r nef erioed na fu yn wharddwr iachus ar amgylchiadeu priodol, ag nid eiff fyth. Ymlynyddedd fy afiechyd 'roedd awr

ynghwmni fy hen gyfeill yn well na mis o for. Ni chyfarfyddeis a neb yn meddu iachach *gift of humour*—y gallu sy'n gweld yr ochr lawen ag ysmala i betheu,—y gallu sy'n medru pigo'r blodeuyn oddiar y ddraenen heb bigo'r bys. Mae llawer yn barod i wherthin am ben ereill, ond 'roedd yn cyfeill yn medru wherthin yn iachus am *jokes* ar i gost i hun.

Yr oedd yn un o'r rhai sy'n *llawenhau yn yr Arglwydd*, ag yn caru'r heulwen yn hytrach na'r awyrgylch sur. Nid oedd dim surni yn i natur—nid oedd byth yn ewyllysio i'r diafol gymryd mwy o ofal oi blant i hun. "Peido cymryd sylw" oedd i arfer o droion brwnt wnelid iddo—"rhoi amser uddynhw ddwad i lle," a gwneud caredigrwydd pan ddelei cyfle. Mynnei ddiniweidrwydd ymhob dim, ag egwyddor ymhob ymdrafodaeth. Nid oedd byth yn meddwl am dano i hun—isteddei yn y cornel pella ar y stol isela heb deimlo i fod yn cael cam. "Mae rhaid i rywun iste fan hyn, pam arall fwy na fi?" Os gelwid ef i le uwch elei heb alw sylw ato i hun. Nid oedd un math o *humbug* yn perthyn iddo, ac yr oedd i amynedd yn fyrrach at yr *humbugs* na neb arall. Os gwelei rywun dan anfanteis yn gwneud i ran yn wrol, 'roedd i galon yn tanio ag ai a'i ysgwydd o'r tu cefen i adgyfnerthu'r dyn. Yr oedd yn rhydd oddiwrth bob math o awydd am swyddeu a chlod iddo i hun, ag nid oedd nyth yn i fron i'r *jealousy* tragwyddol sy'n difwyno cymeint o gymeriadau da—yr oedd yn hollol rydd o *jealousy* y pregethwr na fynn glywed fod neb wedi siarad yn dda ond efe. Fel siaradwr yr oedd yn ddawnus a naturiol, yn eglur bob amser, ag ar lawer amgylchiad yn huawdl ag nid heb dinc or hwyl. Yr oedd gogwydd i fywyd i'r pwlpud; ystyriei alwedigaeth y pregethwr yn fraint, ag yn allu Duw er daioni dyn. Gofidiei fod llawer yn i hystyried fel crefft i ddwyn clod a bywoliaeth i'r sawl a'i dilynei.

Bu yn efrydydd drwy i oes. Ni welai ddrws tafarn na hotel, ond gwelai shop y Bookseller o bell, ag ai atti ar i union, a deuei allan a llyfyr ymhob poced. Yr oedd yn ddarllenwr cyflym, craffus a meddylgar—un ag oedd yn cadw ffenestri i feddwl yn lan bob amser. Crwydrei drwy bob math o lenyddiaeth Seisnig a thramor, a darllenei braidd bobpeth yn Gymraeg, hyd yn nod gyfroleu o bregetheu yn perthyn i bob enwad. Edmygei yn fawr "ambell i *stroke* go dda," a dwedei y goreu allai am bob llyfyr; ond yr oedd beirdd Cymru, gan mwyaf, yn peri iddo fod yn ddistaw ddistaw. Yr oedd yn hoff o wir huawdledd; nid wyf yn cofio weld i wyneb yn fwy siriol erioed nag ar y Maes Ymhwllheli yn Sassiwn y Methodistiaid yn gwrando y Parch. J. Williams, Brynsiencyn. "The manner was perfect, and the matter worthy of it,"—dyna'r ddedfryd. Ond wfftiei bregethwr bolwyntog yn bloeddio fyth i hefyd *cant phrases* y pwlpid, a hen fframwndis sectyddiaeth. Carei ddull syml a geireu syml yn gosod allan ffrwyth a mawredd meddwl clir.

Teimlei yn falch o bob dyn fyddei yn dangos i fod wedi ymladd brwydr dros y ffydd oedd ynddo; dyn oedd yn galler sefyll ar i sodleu i hun, ag nid rhywfath o bioden frith wedi dysgu *parrot cries* i enwad.

Gwyddei yn dda na fu, ag nad oes yn y byd "neb dau un wyboden," ag edmygei onestrwydd bob barn ddiwylliedig, gan nad beth fyddei. Nid undeb tŷb a barn ond undeb yspryd ac ymgais i wneyd dyn yn deilwng o dynged uwch—dyna'r pwnc mawr. Ymhyfrydei yn y blynyddeu diweddar wrth weld meddylwyr pob gwlad yn rhwygo tents *blue gingham* y tadeu, ag yn dyfod allan i dabernaclu dan awyr lâs y nefoedd a'u wynebeu tua'r goleuni. Dilynei holl symudiadeu y byd duwinyddol, ag nid wyf yn credu fod un *specialist* Ynghymru fedrei ddyscu dim iddo ym myd yr *higher criticism*. Yr oedd yn *higher critic* i hunan, ag nid oedd fyth yn colli i bwyll fel dynion sy'n eco or llyfyr dwetha ddarllenan. O na, siglei benn gan ddweyd yn amal *that wont do*. Fynnei ef ddim damcanieth sigledig yn sefyll ar benn *sigoese*. Tir cadarn a chniwllyn y gwir oedd eisieu arno fe—nid mascal a chneu gweigon, er tecced eu lliw. Fel goreuon y byd dyscedig yr oedd yn gwybod digon i wybod i anwybodaeth i hun, ag o ganlyniad nid oes dim ysfa arno i gyhoeddu "y peth dwetha."

Yr oedd yn rhaid i gymhell i siarad a scrifennu ar byncieu oedd yn gartrefol ynddunt a phan wnai, gwnelei hynny yn dda. Synnei glywed camoliaeth iddo i hun. Nid oedd yn cofio nad oedd i gydnabod yn llofta mor ddiwyd ar feysydd mor doreithog—fod y pethau oedd yn *common places* iddo fe yn newydd i ereill. Pan oeddem yn Llandrindod y llynedd ni weleis i neb yn synnu mwy na phan ddarganfyddeis iddo i gymhwysdereu i scrifennu llyfyr Cymraeg yn rhoi ffrwyth aeddfetta ymchwiliad—*established conclusions*—ynghylch y Beibl a dechreuad Cristnogaeth. Ymhen hanner awr yr oedd wedi tynnu allan gynllun cyflawn or llyfyr yn y fath fodd ag oedd yn profi i wybodaeth o bob canghen or pwnc. Ond 'roedd yr iechyd yn colli yr amser hynny ag yn ystod y gaeaf 'roedd y penn yn pallu atteb yr alwad fel gynt, ag nid gwella ond gwaethygu wnaeth petheu.

A phan gyfarfyddeis ag ef ddiwedd Awst yn station Pwllheli, canfyddeis fod dolur dwys yn i lethu—yn lle y sirioldeb arferol, a'r "Fachgen siwt rwyti?" bu'r wên farw ar i genedigaeth, a symudei yn araf araf gan ddweyd: "Dyma fel y mae hi arna i nawr—cymmer bwyll." Bu yn aros gennyf hyd gannol Medi yn wan i yspryd, ond mor fwyn ag angel. Methodd symmud ganllath or ty yn ystod i arosiad, ag er fod gwawr gobeith yn torri nawr ag yn y man casclu fyth a hefyd wnai y cymyleu. Aethon dros helyntion bywyd, ond credei fod y llinyn aur ar dorri. Ni chlyweis i un gair o betruster. Dwedodd unwaith: Ni wyddon ni ddim beth sy on blaen, ond fe allwn fynd i gyscu, fel plentyn ynghôl i fam, yn llawn ffydd a hyder fod y breicheu tragwyddol yn gofalu am danom.

J. Gwenogfryn Evans.

BYWGRAFFIAD.

Dyledswydd trist a gorchwyl pruddaidd sydd wedi ei osod arnaf heddyw, sef ceisio gosod wrth eu gilydd ychydig eiriau ychwanegol i'r hyn a roddwyd yn rhifyn Tachwedd, mewn ffordd o goffa am y cyfaill anwyl,

Y "DIWEDDAR"

William James. Yr wyf wedi bywgraffu o'r blaen lawer gwaith, ond yn y cyffredin, bywgraffu o bell fyddwn i'n ceisio wneuthur, neu ddywedyd gair am un oedd eto heb orphen ei daith ddaearol. Pe gelwid arnaf flwyddyn yn ol i ddywedyd gair am ein hanwyl frawd ymadawedig, gallaswn ei wneuthur yn rhwydd ddigon; ond yn awr, pan y mae newydd ddianc o'r golwg, teimlaf fod y ddyledswydd wedi myned yn fwy anhawdd a'r gorchwyl yn fwy trwm, fel mai o'r braidd y gwn sut mae symud yn mlaen; y mae eraill, fodd bynag, wedi ysgrifenu, a hyny yn dda, a rhaid yw i minau wneuthur cais.

Er fod afiechyd Mr. James wedi dechreu mor bell yn ol a mis Chwefror, pan y gwysiwyd ef ar gais yr Arglwydd Ustus Vaughan Williams, i roi ei dystiolaeth o flaen y *Welsh Church Commission;* gwnaeth yr helbul a'r drafferth mewn cysylltiad a'r fusnes effeithio cymaint ar ei iechyd fel na bu'r un dyn fyth wedi'n, ac er gwaethaf pob ymdrech ar ran meddygon, a phob gofal ar ran anwyliaid cartref, a newid awyr mynych i fôr ac i fynydd, gwaethygodd yn raddol, a daeth y diwedd dydd Sadwrn, Hydref 26ain, yn ei gartref yn Brynhyfryd, Llandyssul, yn bur annisgwyliadwy i'r cyhoedd yn gyffredin, ac efe yn bedair blwydd ar bymtheg a deugain oed.

Mab oedd Mr. James i'r diweddar John ac Elizabeth James, Camnant Fach, ac yno y ganwyd ef Ebrill 13, 1848. Yr oedd ei dad o nifer y rhai a gawsant eu troi allan o'u ffermydd yn ystod

YR ERLEDIGAETH GREULAWN

a gymerodd le ar ol etholiad 1868, pan y dychwelwyd Mr. Evan Matthew Richards i'r Senedd. Y pechod (?) mawr oedd y dynion hyn yn euog o hono oedd, rhoi pleidlais yn ol llais eu cydwybodau eu hunain, yn lle pleidleisio yn ol gorchymyn y perchen tir. Nid anyddorol ychwanegu yma fod mab-yn-nghyfraith Mr. James heddyw yn berchen ar Camnant—(Garthowen), ac y mae ef a'i briod ar fyned yno i fyw. Dyna fel y mae Nemesis yn gweithio.*

Cafodd fyned i'r ysgol yn fore iawn at y Parch. T.T., a bu am rai blynyddau yn *pet* yr ysgol am ei fod mor fychan, ac wedi hyny am lawer rheswm yn *favourite pupil*, nes dyfod yr adeg i fod yn un o fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin, 1863-66; yn 1866 cawn ef yn y Manchester New College, Llundain, dan ofal medrus y Parch. John James Tayler, awdwr y *Religious Life of England*, a'r Parch.

JAMES MARTINEAU,

yr hwn gyfrifir ei fod wedi gwneuthur mwy na neb arall yn ei oes i rwystro y diluw o amheuaeth a gymerodd feddiant o feddwl y wlad ar ol 1859, adeg ymddangosiad llyfr Darwin—*The Origin of Species;* ac a'i helpiodd yn raddol i adfeddianu ei hunan ac i gael ail afael yn y *Terra Firma*. Yr oedd ganddo feddwl uchel am ei ddau athraw; ond fel hyn y mynegai

---

*Symudodd Mr. John James a'i deulu i fyw i Dy'rdref, Llandyssul, ac wedi hyny i Droedrhiwfawr, heb fod yn mhell, lle y bu farw Rhagfyr 2, 1891, yn 76 oed. Gwelir manylion dyddorol yn YMOFYNYDD 1892, tud. 41.

ei deimlad o'r gwahaniaeth rhyngddynt, "I loved Taylor, I admired Martineau." Tebyg fod Martineau yn byw mewn awyrgylch o athroniaeth rhy uchel i grwt ugain oed ddyfod yn ddigon agos ato, i'w werthfawrogi; ond gydag aeddfedrwydd oedran, aeth ei edmygedd o Martineau* ar gynydd drwy ei oes. Wedi blwyddyn yn Edinburgh 1869-70, cymerodd ei London B.A. yn 1871. Ar ol hyny bu yn cynorthwyo am ryw flwyddyn yn ysgol y Parch. George Heaviside yn Coventry†; aeth oddiyno, os cofiwn yn iawn, yn ol i'w hen gartref, i fod yn gynorthwywr i'w hen athraw, y Parch. T. Thomas, yn y Rhydowen Grammar School hyd ddiwedd 1872. Symudodd oddiyma ar ddechreu 1873 i Aberdar i gymeryd gofal eglwys ac ysgol yr Hen Dy Cwrdd. Traddododd ei bregeth gyntaf fel gweinidog, Ionawr 19, 1873. Yma, mewn ffordd, y dechreuodd ar yr hyn a ystyriai ar y pryd oedd o hyn allan, i fod yn

WAITH MAWR EI FYWYD,

sef gwaith y weinidogaeth; ac yma y treuliodd yn agos i saith mlynedd o wasanaeth defnyddiol a dedwydd iawn, ni a gredwn, yn cyflawni hyd eithaf ei allu holl ddyledswyddau amrywiol gweinidog ac ysgolfeistr,—yn pregethu a gweddio, yn rhybuddio a chynghori, yn bugeilio a beddyddio, priodi a chladdu. Nid oes fawr ddychymyg gan bobl yn gyffredin am y llafur a'r lludded, y gofal a'r pryder, a'r ymdrech parhaus sydd yn angenrheidiol i wneuthur gwaith gweinidog hyd yn nod yn gymedrol lwyddianus; ond trwy ei zel a'i frwdfrydedd a'i weithgarwch diflino, ei dymer siriol a serchog, a'i ymagweddiad hapus yn mhob cysylltiad, ni fu Mr. James yn hir cyn enill serch hollol ei gynulleidfa. Do, fe wnaeth ei waith mor dda, fel yr aeth yr afael yn un tyn iawn rhwng gweinidog a chynulleidfa.

Tebyg mai yn Aberdar

"Y teimlodd gyntaf saethau serch,
A blinder eisieu mwynder merch,"

a'r profiad cyntaf o'r "Caru, Priodi, a Byw" sydd yn llanw lle mor helaeth yn hanes dyn ar y ddaear. Synai pobl ddibrofiad yn fynych y fath allu raid fod yn y "swyn" fyddai'n cludo ei ddeuddeg scor mor ddidaro a diflino, wythnos ar ol wythnos, a mis ar ol mis, ar deg a garw, dros y pum milldir o tynydd orweddai rhwng Aberdar a Chefncoed. Gorphenaf 10, 1877, coronwyd ei ffyddlondeb â llwyddiant. Cafodd y fraint o arwain y ferch ieuanc at yr allor briodasol, ac o weled selio'r cwlwm cydrhyngddo ef â Sarah, merch hynaf y diweddar Barch.

---

* Ychydig glywais i erioed gan neb o'r myfyrwyr am *limitations* Martineau; ac eto fel pawb o blant dynion nid oedd yntau hebddynt. Un diwrnod aeth James i'r dosbarth yn ddiweddar, a galwyd ef i gyfrif. Nid oedd ganddo yr un ateb boddhaol, ond fod ei wanc am fwyd wedi mynd mor gryf fel y bu dan orfod rhoi ffordd i daerineb y dyn oddifewn. "Hungry," medd yr athraw mewn llais mor sarug ag y medrai efe ei osod, "why did you not go and get a penny bun?" Nid oedd yr un ateb; ond wedi myned allan—wrth y *students*, gyda gwên ddiniwed, "A penny bun, indeed! Just fancy," gyda *sweep of the hand* dros ei gylla, "a penny bun to satisfy the cravings of a young elephant!"

† Yn ystod ei amser yn Coventry, dygwyd capiau newyddion i'r ysgol gyda'r llythyrenau "H.S." arnynt, yr hyn olygai High School; a'r tro cyntaf yr aeth y *boys* allan gyda'u capiau newydd ar eu penau, ac yn naturiol falch o honynt, spotiwyd hwy yn union gan *Hooligans* bach yr ardal, y rhai a redent ar eu hol, gan waeddi'n ddirmygus, a throi yr "H.S." yn "Hot Soup, a penny a quart; Hot Soup, a penny a quart," nes peri'r fath gywilydd arnynt, fel nas gallent lai na dymuno fod y capiau tua chymydogaeth Jericho.

Owen Evans, Cefncoed, yr hon a brofodd yn amgeledd gymwys iddo hyd ddiwedd y daith. Cawsant dri o blant, dwy ferch a bachgen. Am ddeng mlynedd ar hugain dygasant feichiau amrywiol bywyd yn ffyddlawn gyda'u gilydd, ac yn awr "y naill a gymerwyd a'r llall a adawyd."

Rhoddodd y weinidogaeth yn Aberdar i fyny Hydref 5, 1879, i gymeryd gofal eglwysi y Bwlch, y Llwyn, a'r Graig, Llandyssul, fel olynydd i'r Parch. Wm. Thomas, M.A., (Gwilym Marles), yr hwn oedd wedi gorfod ymddiswyddo oherwydd afiechyd blin, afiechyd a achoswyd gan y gofalon a'r pryderon a daflwyd arno trwy y

"TROAD ALLAN"

yn y Llwyn* yn 1876, ac a derfynodd yn ei farwolaeth Rhagfyr 11,1879, pan nad oedd efe eto ond 45 oed. Ymdaflodd Mr. James gyda'i holl egni i waith y weinidogaeth yn ei gylch newydd; ond er fod ganddo yn awr brofiad helaethach a chymwysderau mwy fel canlyniad, i gyfarfod a gofynion ei alwedigaeth, profodd y gwaith yn ormod iddo fel yr amharwyd ei iechyd, ac y gorfu iddo ar ol pedair blynedd roddi'r ysgol i fyny, a'r pwlpudau hefyd yn 1888. Yn ystod ei weinidogaeth ef yr adeiladwyd capel y Graig, yr hwn yw un o gapeli harddaf yr enwad. Croes iawn i'w ddymuniad a'i ewyllys oedd cefnu ar y weinidogaeth, a pharhaodd i gadw cornel cynes yn ei galon tuag ati hyd y diwedd, ac i ddangos ei ddyddordeb yn ei llwyddiant yn mhob modd y gallai. Gyda mwy o amser ar ei ddwylaw medrai roi mwy o sylw yn awr i ofynion y cyhoedd hefyd. Felly cawn ef yn arholwr mewn Gwyddor a Mesuroniaeth yn Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin, 1882-6; Ysgrifenydd Cymdeithas Undodiaid Deheubarth Cymru, 1894-1907; Llywydd yr un, 1901-2; Golygydd yr YMOFYNYDD, 1903-7; J.P. dros Sir Aberteifi, 1895; Aelod o Fwrdd Ysgol Llandyssul; Aelod o Fwrdd Llywodraethol yr Ysgol Sir, 1894- ; Cadeirydd yr un, 1900; Aelod o'r County Governing Body, 1900; Manager o'r Ministers' Sustentation Fund, yr unig un o Gymru, yn olynol i'r Parch. T.T. a ymddiswyddodd 1904.

Yr oedd Mr. James yn awyddus iawn bob amser i weled lledaeniad egwyddorion syml gwir grefydd. Wedi ei ymneillduad o'r weinidogaeth pregethai'n achlysurol gartref ac oddicartref, ac yn fynych gydag holl egni a nerth ei flynyddoedd boreu. Yr oedd mewn ffafr neillduol yn ein cyfarfodydd chwarterol, lle'r oedd ei gymwysderau fel dyn o fusnes yn ei wneuthur yn gaffaeliad gwerthfawr fel ysgrifenydd y gymdeithas; a thebyg iddo wneuthur mwy na neb arall yn y blynyddoedd diweddar mewn ffordd o gychwyn gwelliantau newyddion mewn cysylltiad â gwaith y Gymdeithas. Yr oedd yn

DDARLLENWR MAWR.

Darllenai y llyfrau diweddaraf ar Athroniaeth Crefydd a Beirniadaeth Feiblaidd, a chan ei fod yn meddu cof ardderchog, gallai yn rhwydd hufenu ei ddarlleniad a'i gyfleu at wasanaeth y dyfodol yn y pwlpud neu yn "Nyth y Fran" yn yr YMOFYNYDD. Credai y dylai pob gweinidog fod yn hyddysg gyda golwg ar ffrwyth myfyrdodau diweddaraf yr uwchfeirniaid, nid yn gymaint er mwyn iddo ei wyntyllu yn y pwlpud ag i fod yn help i'w gadw rhag dweyd dwli.

Yr oedd yn bregethwr rhagorol, effeithiol a dylanwadol; gallai ysgrifenu pregeth—pregeth ddelfrydol, ac nid rhyw draethawd sych o bregeth, a gallai wneuthur cyfiawnder â hi yn y pwlpud, gan hoelio sylw ei wrandawyr o'r cychwyn i'r terfyn. Nid oedd yn ganwr. Amheus genym a fedrai efe fyned trwy yr Hen Ganfed wrtho ei hunan. Eto, medrai wneuthur

*Gweler hanes y Troad Allan yn YMOFYNYDD Rhagfyr 1876, rhifyn coffadwriaethol.

y goreu o'i lais, fel nad oedd yna ddim yn undonol nac unffurfiol yn ei thraddodiad, ond lleferid pob gair a phob ymadrodd mewn llais oedd megys wedi ei wefreiddio gan yr amrywiaeth teimlad angenrheidiol i roi'r mynegiant priodol i'w feddwl. Gallai fod yn y bregeth flodeu areithyddiaeth, ond nid mor eithafol amlwg nac yn y fath gyflawnder ag i guddio ei bwnc. Gallai ar y naill law gyffroi y galluoedd deallol hyd eu heithafbwynt, ac ar y llaw arall gyffwrdd a'r teimlad nes cynyrchu dagrau.

Yr oedd yn Undodiad trwy ddygiad i fyny ac o argyhoeddiad ; nid Undodiad rhifyddegol yn unig. Nid oedd rhith o gulni yn ei yspryd. Iddo ef safai'r enw am olygiadau a fyddent yn ei dyb ef er mantais i'r cyhoedd eu gwybod, a gwnaeth ei oreu mewn amser ac allan o amser i'w gwneuthur yn hysbys. Nid oedd ganddo'r un cydymdeimlad a'r dosparth hwnw yn ei enwad ei hunan, a wastraffent eu hamser yn beirniadu y rhai a geisient wneuthur rhywbeth, tra nad oeddynt hwy eu hunain yn gwneuthur dim ; na dim amynedd gyda'r rhai a fynent

Dynu i lawr y Faner

o dan yr hon yr oedd brwydr rhyddid wedi ei ymladd yn ystod y cant a haner o flynyddoedd diweddaf.

Ar wahan i'r hyn ysgrifenodd i'r Ymofynydd 1873-1907,—ond yr oedd hyny yn llawer,—bychan yw swmp yr hyn a wnaeth i gyfoethogi llenyddiaeth Gymreig. Priodola ysgrifenydd caredig yn y *South Wales Daily News* hyn i ddiffyg uchelgais (*ambition*). Cydnebydd ef fel un o ysgolheigion goreu Cymru, ac fel duwinydd o'r radd flaenaf ; ond na cheisiodd erioed nac yn yr ysgol nac yn y coleg, i ymwthio i'r ffrynt ; na wyddai neb, a dichon na wyddai ei hunan na dyfnder na llydander ei ddysg ; a'i bod yn drueni iddo adael mor ychydig ar ol i ddangos i'r dyfodolion mor alluog dyn oedd ; pe'n meddu uchelgais y gallasai fod yn un o ddynion blaenaf Cymru. Ni fynwn i amheu hyn oll ; ond y mae'n anhawdd gweled sut y gallasai fod yn wahanol. Yr oedd yna anhawsderau anorchfygol ar ei ffordd ; ac nid oes modd cael uchelgais digonol i gyflawni'r anmhosibl. Cofier ei fod yn rhwym gyda'i ysgol drwy'r wythnos, ac yn ychwanegol i hyny yr oedd dyledswyddau'r bugail a'r pregethwr yn ddigon i gymeryd i fyny weddill ei amser, heb drespasu'n ormodol ar oriau cwsg, ac heb feddwl dim am yr ymarfer corfforol sy mor angenrheidiol i gynal iechyd. Heblaw hyny, pwy fuasai'n prynu ei lyfr pe cyhoeddasai un ? Y mae maes ei enwad ei hun yn rhy gyfyng i sicrhau cylchrediad digonol i dalu'r argraffydd. A phwy y tu allan fuasai'n barod i brynu llyfr elai allan o'r wasg gydag arogl tybiedig

Heresi Undodaidd

arno ? Ni wyr neb yr aberth a wnaeth mewn amser ac arian i wasanaethu crefydd rydd. Nid oes maes digon eang eto yn Nghymru i gyhoeddi llyfrau o'r fath y gallai efe ysgrifenu, yn ddigolled. *Motto* Cymru hyd yn hyn yw, nid Beth sydd wir ? ond Beth ddywed y Gyffes a'r Gredo ? Traddododd bregeth y Gymdeithas yn Mhontypridd, 1895, a chyhoeddwyd dau argraffiad dan yr enw—Crefydd Cymru Fydd. Golygodd wersi'r Ysgol Sul ar Marc, 1897-99, ac ar Luc, 1900-1. Ystyriwn y rhai hyn yn fwy *up to date* na dim o'u bath yn y Gymraeg.

Fel y gellid disgwyl oddiwrth y profedigaethau chwerw a blin gafwyd yn Llandyssul a'r gymydogaeth yn 1868-76, nid allai Mr. James lai na bod yn wleidyddwr selog. Er mewn parch gyda'r ddwy blaid yr oedd o argyhoeddiad dwfn yn gynorthwywr gwresog y blaid Ryddfrydig. Yr oedd yn gadeirydd Cymdeithas Ryddfrydig Llandyssul, ac yn Isgadeirydd Cymdeithas y Sir. A chan ei fod yn areithydd medrus a dylanwadol, yr oedd galw mawr am ei wasanaeth yn amser etholiad.

Cymerai olwg glir ar y sefyllfa wleidyddol, ac yr oedd ei ddylanwad fel areithydd ac fel dyn, yn nghyd a'i barodrwydd i helpu, yn gwneuthur ei wasanaeth yn anmhrisiadwy. Cymerodd ran yn etholiad y Cynghor Sir eleni; a'r Sul ar ol hyny, dranoeth yr etholiad, yn unol a'i addewid, ymgymerodd a'r gwasanaeth crefyddol yn y Graig, ond cyn iddo fyned drwy'r haner darfu iddo fethu, a bu raid myned ag ef adref.

Yr oedd Mr. James yn ddyn o bersonoliaeth gref a swynol. Fel cynghorwr crefyddol yn yr eglwysi, fel cyfarwyddydd a symbylydd ysprydol i'r myfyrwyr ieuainc, fe wnaeth ei ran tuag at roddi ffurf i gymeriad crefydd ryddfrydig yn Nghymru. Cyffroai ddyddordeb trwy ei ymddiddan, yr hwn oedd fath o gymysg o ddealltwriaeth, arabedd, beirniadaeth garedig a gwybodaeth amlochrog. Apeliai at y serchiadau trwy ei gydymdeimlad dwfn ac eang, a'i galon gynes. Fe gofir yn hir am ei

DDELFRYDAU UCHEL,

ei uniondeb pur, ei garedigrwydd diderfyn, dylanwad byw ei gymeriad prydferth, a'i ffydd ddofn a diysgog yn Nuw a phob daioni. Ond wele'r cyfaill anwyl wedi mynd, y daearol dŷ wedi ei adael yn wag, ac yntau wedi esgyn i'w dŷ newydd ysprydol, y llygradwy wedi gwisgo anllygredigaeth, a'r marwol wedi gwisgo anfarwoldeb; tra'r teulu ar ol mewn galar, y gymydogaeth mewn galar, ac eglwysi'r cyfundeb mewn galar, oherwydd syrthio heddyw dywysog a gwr mawr yn ein Israel ni. I derfynu, ein dymuniad a'n gweddi yw, ar fod Duw yn noddfa ac yn nerth i Mrs. James a'r teulu, ac yn gymhorth hawdd ei gael yn eu cyfyngder.

Gwasanaethwyd yn yr angladd ddydd Mercher gan y Parchn. R. C. Jones yn y ty; J. Hathren Davies ac R. J. Jones yn y capel; a John Davies ar lan y bedd.

Heblaw y rhai a enwyd, yr oedd y gweinidogion canlynol yn yr angladd, Proff. Ph. Moore, Parchn. J. Park Davies, David Evans, E. D. P. Evans (brawd yn nghyfraith), E. Gwilym Evans, E. O. Jenkins, Simon Jones, T. Lloyd Jones, J. Pennell Kane, T. Arthur Thomas (mab yn nghyfraith), Thomas Thomas, Lewis Williams. Yr oedd Ficer a Chywrat Llandyssul hefyd yn bresenol, Parchn. Thomas James, M.A. (M.C.), G.S.Rees (A.), J.Fisher Griffiths (W); a chyfeillion o bell—Miss M. Marles Thomas, Lewis N. Williams, Llywydd y *South East Wales Association*, Mr. a Mrs. Thomas, Frondolau, a Mr. Evan J. Thomas, Abertawe.

R.J.J.

" Mae goleu yn y cwmwl er hylled yw ei wedd;
Mae goleu yn y nifwl sy'n hongian dros y bedd:
Os mynwch syllu arno, O, syllwch gyda ffydd
Sy'n gwneud y bedd yn oleu, a chysgod angeu'n ddydd."

—ISLWYN.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGWYR—
PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL, A T. J. THOMAS, YSW., B.Sc.,
YSGOL SIROL, ABERTILLERI.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 7.
1907.

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo? 124.
Aberystwyth, Ymweliad âg, 36.
Adams, Y Parch. D., a'r Dduwinyddiaeth Newydd, 98.
Adlais o Gyfarfodydd Llundain, 149.
Adolygiadau, 192, 260, 264.
Anfarwoldeb, 24.
Apel Capel Undodaidd Pentre Rhondda, 144, 168, 216, 240.
Aquinas, Tomos, 23.
Ar Edyn Ffydd, 74, 97, 145, 217, 241, 265.
Arholiad yr Ysgol Sul, 136.

Bechod, Ymwybyddiaeth o, 160.
Beibl, Awdurdod y, 146.
Birrell, Credo Mr., 22.
Bromley, Humphrey, 129.

Campbell, Y Parch. R. J., 28, 29, 30, 31, 40, 49, 74, 98, 125, 127, 218.
Capelycwm, Agoriad, 115.
Cenhadaeth Cymru i'r Cenhedloedd, 181.
Cewri Cynydd y Cenhedloedd, 16, 53, 82, 132.
Charles o'r Bala, Geiriadur, 25.
Chwiliwch yr Ysgrythyrau, 18.
City Temple, Ymweliad â'r, 86.
Claddu ynte llosgi—Pa un? 225.
Clarke, Dr. Samuel, 71
Clefyd Dydd Sul, 7.
CONGL YR AWEN :—
Cân y Cryd, 73.
Capel, 89.
Cartre Rhamant, 139.
Ceinion Haf, 163.
Colli Mam, 212.
Croesawu'r Parch. S. Jones, i Abertawe, 89.
Darlun fy merch, 89.
Dechreu Haf, 140.
Duw, 90.
Dy'wyllys wnaer, 245.
Dydd Calan, 139.
Fferyll-fardd yn y coed, 139.
Gwefus, 89.
Hydref, 220.
Jenkins, Mrs., Mynach Villa, 212.
Llongau'n y Nos, 90.
Parch. T. Thomas, Y.H., 15.
R. J. Campbell, 90.
Tant Priodasol, 88.
Y Dyn Gwamal, 134.
Y Ffynon, 15.
Y Gorchfygwr, 15.
Y Modur, 15.
Y Porth Prydferth, 88.
Y Tangnefedd dyfnach, 90.
Y Wisg Eira, 89.
Yr Wy, 15.
Crapsey, Dr., 243.
Crefydd Japan, 96.
Crist, Gwaed, 47.
Cyfarchiadau, 194.
Cyfarfodydd Blynyddol, Y, 186.
Cyfarfodydd Chwarterol, Y, 115, 279.
Cymanfa Ganu Ceredigion, 162, 190.
Cymanfa Ganu Morganwg, 143.
Cymdeithas Undodaidd Deheuddwyrain Cymru, 116, 278.
Cymysgu Iaith, 113.
Cywreingarwch, 85.

Dafy Boe, 156.
Dafydd, Brenin Israel, 100.
Darwin, Charles. 53.
Davies, Cadben William, 172.
Davies, Llandinam, 22.
Ddirprwyaeth Eglwysig Gymreig, Y, 50, 51, 52, 64, 71, 99.
Deffroad Mawr y Ganrif, 38.
Dringfa Sant Awstin, 1.
Duw yn Nghrog, 136.
Dydd Barn, 251.
Dygwch feichiau eich gilydd, 110.

Emynau Anghydnaws, 75, 114.
Evans, Y Dr. Gwenogfryn Evans, 74, 119.

Faraday, 82.
Flwyddyn Newydd, Y, 21.

Garnedd, Ar y, 156.
George, Lloyd, 70.
Gohebiaethau, 113, 136, 166.
Gweddi, 73, 217.
Gwilym Marles, 191.

Gwinllan y Bardd, 63.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 115, 126, 167, 169, 186.
Gymdeithas Undodaidd, Llundain, Y, 121, 149.

Hawthorne, 76.
Hemmerde, Mr., A.S., 22.
Hen Destament, Yr, a'r *Virgin Birth*, 46.
Heresi yn yr Eglwysi, 28.
Hibbert Journal, Yr, 50, 260.
Horton, Dr., a'r Undodiaid, 26.
Hunter, Dr. John, 257.

Iesu a Beirniadaeth ddiweddar, 60.

James, Parch. William, B.A., J.P.—
Bywgraffiad, 270.
Englynion, 276.
Er Cof, 266.
Fel Cyfaill, 267.
Fel Ysgolfeistr, 275.
Marwolaeth, 242.
Penillion, 265.
Jones, Jenkin Lloyd, Chicago, 242.

Longfellow, 76.
Llydaw, Trem ar, 228, 246.

Manchester College, 50.
Manion ac Hanesion, 21, 44, 69, 93, 118, 142, 165, 188, 214, 239, 263, 283.
Marwgofion, 19, 43, 67, 91, 117, 141, 164, 187, 213, 239, 263, 280.
Myfyrdod mewn Mynwent, Awduraeth, 141.
Myfyrwyr, Ein, 21.
Myfyrwyr, Achos y, 210.

Natur, Addoli, 221.
Nefoedd, Meddyliau am y, 9.
Nodion y Mis, 25, 49, 74, 98, 121, 146, 169, 193, 218, 242.

O For i Deifi, 32, 77, 103, 136.

Paul yn ngoleuni'r Iesu, 81.
Pechod—Beth yw? 151.
Plato, 132.
Priestley, Dr., 4.
Priodasau, 19, 43, 116, 164, 213, 238, 262.
Pwlpud y Beirdd, 70.

R.J.J., Cyfnod Golygiaeth, 1873—1887, 203.
Richards, Pontypridd, a'i ganwyllau, 23.
Robert ap Gwilym Ddu, Emyn, 58.

Socrates, 16.

Ty'r Capel, 107.

Undodaidd, Cylchgrawn, 24.
Undodiaeth a Gwyddor, 23.
Undodiaeth yn dyfod i'w heiddo, 46.
Undodiaeth, Penod yn hanes, 161.
Undodiaeth yn Ngogledd Cymru, 235.
Undodwyr yn ol "Perl y Plant," 232.

Watcyn Wyn, 26, 284.
Ward, Mrs. Humphrey, 135.
Williams, Agnosticiaeth Syr Marchant, 22.

Y Crwstyn Bara, 13.
Y Dduwinyddiaeth Newydd, 29, 30, 31, 40, 42, 49, 74, 150, 176, 218, 254.
Y Dduwinyddiaeth Newydd, ei tharddiad a'i harwyddocad, 127.
Ymofynydd, Yr, yn driugain oed, 193, 206.
Ymofynydd, Yr, 1847-1907, 197.
Ymofynydd, Yr, Dathliad ei driugeinfed flwydd, 193.
Ymson y Myfyriwr, 4, 36, 81, 107.

MR. JAMES FEL YSGOLFEISTR.

Er fod fy adnabyddiaeth o Mr. James yn cyrhaedd yn ol dros 27ain o flynyddau, ac er fy mod, dros ran fawr o'r cyfnod hwn, wedi fy nwyn i gyffyrddiad agos âg ef, eto, prin y teimlaf fy hun yn gymhwys i ysgrifenu nodyn o werthfawrogiad o hono—o leiaf, nodyn o werthfawrogiad teilwng o hono; ac oherwydd hyn gyda gradd o betrusdod y cydsyniaf â chais y Golygydd i wneud hyn. Nid am nad oes genyf farn uchel am Mr. James y petrusaf gydsynio. Byddai yn anhawdd i un dyn feddwl mor uchel am ddyn arall ag y meddyliaf fi am dano ef. Ond un peth yw llochesu barn yn y meddwl a pharch yn y galon; peth arall—llawer mwy anhawdd—yw rhoi mynegiad geiriol cyflawn iddynt. Dyna yn gywir yr anhawsder deimlaf wrth geisio ysgrifenu am Mr. James.

Fel Ysgolfeistr

y daethum i adnabyddiaeth o hono gyntaf. Aethum i'w ysgol, os iawn y cofiaf, yn ngwanwyn y flwyddyn 1881, a buais dan ei ofal hyd haf y flwyddyn ddilynol. Daeth llawer o elfenau ei gymeriad i'r amlwg y pryd hyny, a dysgais ei barchu. Ond nid oedd yr argraff wnaeth arnaf yn ystod yr ychydig fisoedd hyn yn ffafriol i gyd. Ystyriwn ef fel tasgfeistr caled, a'i fryd a'i bleser ar fy meichio â chymaint o waith ag a fedrai. Dyna dynged bron pob ysgolfeistr. Edrychir arno fel math o orthrymwr creulawn. Ychydig feddyliwn y pryd hyny yr enillwn inau yr un cymeriad gan genhedlaeth arall o ddisgyblion. Eto, pan yr edrychaf yn ol ar y tymhor hwn yn fy mywyd, diolchaf am y ddisgyblaeth werthfawr gefais ganddo, a gwelaf fod yr oll a wnelai yn tarddu oddiar ddymuniad da tuag ataf fi yn ogystal a thuag at ei ddysgyblion eraill; a phriodolaf pa lwyddiant bynag sydd wedi syrthio i'm rhan i'r hyfforddiant trwyadl a gefais ganddo. Ni chaniata gofod i mi i ymhelaethu arno fel ysgolfeistr. Yn fyr, nodweddid yr oll a wnelai gan lwyredd. Nid oedd modd osgoi gwaith, fel y gorfu i lawer o honom yn aml brofi. Perai i'w ysgolheigion i weithio; a gweithiai ei hunan. A diamheu genyf fod y methiant yn ei iechyd a berodd iddo roddi heibio, yn gyntaf yr ysgol, ac ar ol hyny y weinidogaeth, i'w briodoli yn benaf i hyn. Daethum i adnabyddiaeth agosach, helaethach, a chywirach o hono pan, yn ystod fy nhymor colegawl, yr arferwn fyned i'w gynorthwyo yn fisol am tua dwy flynedd—mwy neu lai. O bob adeg yn fy mywyd, y pedair blynedd dreuliais yn Ngoleg Caerfyrddin yw'r mwyaf dymunol, y blynyddau yr edrychaf yn ol atynt gyda'r adgofion melusaf. Ac yn ystod y blynyddau hyn, yr adegau hyfrytaf oedd y gyfeillach lawen, felus, adeiladol fwynhawn yn Cerdin Villa y nos Sadyrnau a'r Suliau yr arferwn fyned i Landyssul. Dyna pryd y daethum i adnabyddiaeth drwyadl o

Mr. James fel Dyn;

dyma pryd y gwelais elfenau mwyaf dymunol ei gymeriad, y rhai a'i gwnaeth byth er hyn yn fath o arwr yn fy ngolwg. Hyd hyny, arferwn ei ystyried fel un anhawdd dod yn agos ato. Perthynai iddo, fel y tybiwn, ryw elfen nas gallwn ei desgrifio, oedd yn fy nghadw yn mhell oddiwrtho. Dyna'r argraff wnai ar lawer pan yn dod i gyffyrddiad ag ef am y tro cyntaf. Ond galluogwyd fi gan adnabyddiaeth agosach i weled fy mod yn camsynied, ac nad oedd neb y gellid dod yn agos ato gyda mwy o rwyddineb.

Yr oedd ef yn ddyn mawr—fel ysgolhaig, pregethwr, a meddyliwr; nid oeddwn inau ond ieuanc, an-

addfed fy meddwl, cyfyng iawn fy ngwybodaeth, a diffygiol mewn profiad. Eto, yn y gyfeillach y cyfeiriais ati, gellid meddwl nad oedd un gwahaniaeth rhyngom. Nid oedd ynddo yr un rhith o'r ystum uchafol a nodwedda lawer o ddynion ydynt wedi cyrhaedd safle uchel fel yr eiddo ef. Daeth y cyfnod uchod yn fy mywyd i'r terfyn, a dechreuodd fy ngyrfa fel gweinidog—ychydig dros 21 o flynyddau yn ol. Er yr adeg hono daethum i gyffyrddiad parhaus ag ef mewn rhyw gysylltiad neu gilydd. Hyd y diwedd, cefais ef yn dywysydd parod yn fy narlleniadau, yn gynghorwr doeth yn yr anhawsderau bychain, disail yn fynych, a flinant fywyd pob pregethwr. Dyna, mi gredaf, y profwyd ef gan bawb a'i hadwaenai yn dda—cyfaill cywir, twymgalon. Yn mywyd ei gyfeillion agosaf, ac i raddau llai yn mywydau cylch helaeth ei adnabyddiaeth, pair ei farwolaeth wagder. Anhawdd iawn sylweddoli na edwyn ei le arferol ar y ddaear mo hono ef mwy. Pe ceisid genyf nodi allan elfenau amlycaf ei gymeriad, anhawdd fyddai gwybod yn mha le i ddechreu. Ni allai eangder ei wybodaeth lai na thynu sylw. Cafodd fanteision addysg dda pan yn ieuanc, a gwnaeth ddefnydd rhagorol o honynt. Ond ni chyfyngodd ei fyfyrdodau i flynyddau cyntaf ei fywyd. Parhaodd yn fyfyriwr bron hyd y torodd ei iechyd i lawr yn gynar yn y flwyddyn bresenol. O ran ei wybodaeth nid oedd nemawr safle na allai efe esgyn iddi. Ond ni roddai ei fryd yn gymaint ar hyn ag ar fod yn ddefnyddiol. Yn wir, fel y sylwodd un yn adeg ei farwolaeth, ei unig ddiffyg—os diffyg hefyd—oedd absenoldeb trwyadl o uchelgais, yn yr ystyr gyffredin o'r gair, o'i gymeriad. Ei unig uchelgais oedd gwneud ei ran dros ryddfrydiaeth mewn crefydd.

YR OEDD YN UNDODWR;

yr oedd yn Undodwr o argyhoeddiadau angherddol. Ac iddo ef nid corff dienaid, negyddol, oedd Undodiaeth, fel y meddylir yn fynych—hyd yn nod gan lawer o Undodiaid, ond egwyddorion â bywyd ynddynt. Credai fod gan Undodiaeth genadwri i'n hoes; a gwnaeth fwy na neb o'i genhedlaeth i draethu y genadwri hon fel y deallai efe hi. Gellid cyfeirio at lawer o nodweddion eraill yn ei fywyd,—yr oll yn ddymunol. Yn ben ar y cyfan cawn ei gymeriad ardderchog. Dyna'r unig air cymhwys, fel y credaf, i'w iawn ddesgrifio fel dyn—y gair ardderchog. Mae ei le ar y ddaear yn wag. Fel y sylwodd Alva mewn pregeth yn fuan ar ol marwolaeth Mr. James, mae wedi esgyn o'i Frynhyfryd ar y ddaear i fryn mwy hyfryd y nef. Ond mae dylanwad ei gymeriad ardderchog yn aros. Melus yw'r goffadwriaeth am dano. Ac fe erys y goffadwriaeth am dano gyda ni hyd derfyn ein taith yn anogaeth ac yn ysprydoliaeth i ymdrech mwy dros yr egwyddorion y gwnaeth efe gymaint drostynt.

Cribyn. D. E.

ENGLYNION

Ar farwolaeth y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul.

WILLIAM JAMES! Gâr hawddgaraf,
—mewn ceufedd
Mae'n cyfaill anwylaf;
Darfu'n hoen, a darfu'n haf;
Deuodd gwae a dydd gauaf!

Aeth i'r llawr un o fawrion—ein goror,
Un garai lwydd Seion;
Adwy geir; aed â gwron
A gloew sant o eglwys Ion.

Dysgawdwr, awdwr ydoedd—a roddai
Ryw addysg i luoedd ;
Un llawn o ras, llenor oedd,
Gwas ei Naf, geisiai nefoedd.

Y llefarwr llafurus—ddiwygiai
Ddiogwyr esgeulus ;
Ei lith oedd lefn a threfnus ;
Mynai'r *grawn*, nid ysgawn *us*

'E gollwyd Gwas urddasol,—Pre-
Pur goeth a difrifol ; [gethwr
Pwy leinw mwy 'r adwy ar ol
Un mor dda, neu mor dduwiol ?

Ni fu'r un yn fwy ei rinwedd ;—e wnai
Yn aml ryw drugaredd ;
A charai bawb—ni cheir bedd
I *enw da* un o'i duedd.

Gwin ei waith a gawn weithian—yn
rhoi nwyf,
A rhyw nerth i'r egwan ;
A cheir ei ddelw eirian
Yn noeth fry yn "Nyth y Fran." *

Am fanna'r YMOFYNYDD—O mor
rhwydd
Mawrhau 'i gyn-olygydd !
Ei lithiau, diliau dolydd,
Yn loew falm o'i ol fydd.

DEWI HEFIN.

---

* Ysgrifenodd lawer erthygl dan y penawd uchod.

Huno mae'r apostol hynod—ar ol
Hir alar a nychdod ;
Er y glyn, 'e bair ei glod
Yn tyfu ar ein tafod.

Dyn o ddysg, a'n denai a'i ddawn,—
A Duw ynddo'n orlawn ; [a dyn
Yn hael wr, yn anwyl iawn,
Yn enaid ar dân uniawn.

Yn ei awr gwnaeth ei orau—i hwylus
Alw ar eneidiau,
Mewn iawn bryd, i gyd o'r gau,
I'r bythol eirwir bethau.

Bu yn glod i Undodiaeth—yn gyfaill
I gofio Rhyddfrydiaeth ;
Gyda sèn, 'e godai ei saeth
I gul fynwes o Galfiniaeth !

Ar y faingc yn ddewr a fu,—o galon
Yn gwylied i farnu,
Fel dyn call, y gwall yn gu,
O rasol ddeddf yr Iesu.

I hir oes gwelir eisiau—ei wyneb
Anwyl yn ein cyrddau,
A'r byw beth o'i bregethau,
Ini'n glyd i'n lloni'n glau.

Trwy wir gred, dalied ei deulu—yn
Trwy weddus alaru ; [hawdd,
'E gloddiwyd, nid i gladdu
Yr enaid mawr, a'r cawr cu.

Teimlo'n ddwys mae'r eglwysi,—y
Nas gellir ei chyfri' ; [golled
Y duwiol a wel i dewi,
I galon Ner nis gwelwn ni.

Miloedd heddyw a'i mola,—o furiau
Anfarwol ei yrfa ;
Ei ogoniant a gàna,
A byw byth fo y B.A.

I fynwent heb glwyf i huno,—na byd,
Na baich mwy i'w flino ;
Yma ei dref, fel am dro,
Am Eden wnaeth ymado.

Ar ei ol mae gwir wylo,—ei deulu
A'i dylwyth sy'n teimlo ;
Mae ein brawd uwch ing mewn bro,
Ar aelwyd ddiffarwelio.

Trebanos. D. W. DAVIES
(*Brynfardd*).

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEU-DDWYRAIN CYMRU.

Cynhaliodd y Gymdeithas uchod ei chyrddau chwarterol dydd Llun, Medi 30ain, yn Highland Place, Aberdar. Cafwyd cyfarfod o'r cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwysi am dri o'r gloch, ac yn absenoldeb y Llywydd—L. N. Williams, Ysw.—(yn yr Unol Dalaethau) cymerwyd y gadair gan y Parch. W. J. Phillips, o'r Nottais. Yn mhlith y materion ymdriniwyd a hwy oedd—

(*a*) Y posibilrwydd o gael *Mission Van* i'r cylch yr Haf nesaf er hau hadau crefydd rydd ar hyd cymoedd a llethrau Morganwg.

(*b*) Apwyntiwyd deuddeg Undodwr hyf a diragfarn i gynrychioli y Gymdeithas yn y *Welsh Nonconformist Convention*, yn Caerdydd, ar y 10fed o Hydref, er argymhell y Llywodraeth i ddwyn i fewn Fesur Dadgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yn Nghymru yn y bedwaredd sasiwn o'r Senedd bresenol.

Clywais fod pedwar o'r deuddeg a digon o yspryd y tadau ynddynt—yspryd Gwilym Marles, er engraifft—i roddi eu presenoldeb yn y *Convention*. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi ni chollasant eu gwobr.

(*c*) Penderfynwyd cymeryd mesurau i sefydlu yn ein heglwysi ddosbeirth er astudio cwestiynau cymdeithasol y dydd, ac felly ddatgan fod crefydd a bywyd cymdeithasol byd yn un.

Darllenwyd adroddiad y Parch. Joseph Wood, Llywydd y *National Conference*, ar ei ymweliad a'n heglwysi yn neheu-ddwyrain Cymru, ac nid anyddorol efallai fyddai gair neu ddau o'r adroddiad yma: —

"Yr oedd fy ymweliad a Deheu Cymru yn llawn dyddordeb. * * Yn mhob lle yr oedd y capelau yn llawn, a synwyd a swynwyd fi gan nifer y gwrywod yn bresenol, yn enwedig bechgyn ieuainc rhwng deunaw ac ugain oed. 'Roedd y gwasanaethau yn frwdfrydig i'r pen, a'r canu yn wefreiddiol mewn gwres a bywiogrwydd. Deuais i'r casgliad fod y cynulleidfaoedd hyn o weithwyr cyffredin yn wir fyw a gweithgar. Eu hunig wendid yw nad ydynt yn gwybod y ffordd i danysgrifio. Mae eu tanysgrifiadau, ag ystyried mai gweithwyr ydynt, yn hynod ddiffygiol, a 'does yr un amheuaeth na allent roddi rhagor, ac y gwnaethent hyny pe yr ymwelid a hwy gan ryw leygwr galluog a chyfrifol yr hwn a wnai hyn ei neges. Rhaid iddo, wrth gwrs, fod yn lleygwr sydd ei hun yn cyfranu yn dda. Anhawdd yw i'r gweinidog i ddadleu a chymell er mwyn codi ei gyflog ei hun. Ar wahan oddiwrth hyn, ymddengys cyflwr yr eglwysi yn y gweithfeydd i mi yn hynod obeithiol, ac yr wyf yn argyhoeddedig fod maes eang yn agored yma i'w wrteithio. Mae y drws yn agor i ni mewn lleoedd fel Cwm Rhondda. Deuais o Ddeheu Cymru wedi fy nghysuro yn fawr, ond hefyd mewn mawr bryder a phrudd-der. Y mae yno ragolygon dysglaer i'r Ffydd Ryddfrydig pe y gellid sefydlu yno weinidogaeth effeithiol. Ond ni cheir byth y cyfryw weinidogaeth ar y radd bresenol o danysgrifio."

Ar ol darlleniad yr uchod penderfynodd y Gymdeithas fod y Pwyllgor Gweithiol i gymeryd y mater mewn llaw ar unwaith. Ac yn wir ymddengys i ni y cwestiwn mwyaf pwysig i'n heglwysi yn Nghymru ar yr adeg bresenol. Am chwech o'r gloch darllenwyd papyr gan y Parch. J. Hathren Davies ar "Uno yr Eglwysi," hyny yw, fod dwy eglwys o dan yr un gweinidog, neu ynte dair eglwys o dan ddau weinidog, yn lle un gweinidog, un eglwys, fel hyd yma yn Morganwg. Teimlai y mwyafrif o'r rhai gymerodd ran yn y gynhadledd mai doeth fuasai cymeryd cam o'r fath er llanw rhai o'n pwlpudau gweigion a sicrhau ar yr

un pryd weinidogaeth effeithiol. Eto credid nad posibl hyn hyd nes y caem nifer o leygwyr galluog i roddi eu gwasanaeth fel pregethwyr cynorthwyol. Felly pasiwyd fod Mr. W. Sutherland o Gasnewydd i ymgymeryd â'r gwaith o ffurfio Undeb Pregethwyr Lleygol yn y cylch, a da genym ddeall fod Mr. Sutherland eisoes wrth y gwaith.

Yn yr hwyr cafwyd gwasanaeth defosiynol—y Parch. Arthur Golland, M.A., gweinidog newydd Casnewydd, yn darllen a gweddio, a'r Parch. F. Blount Mott, gweinidog newydd Caerdydd, yn pregethu. Cafwyd cynulliad lluosog, ac mae ein diolchgarwch yn ddyledus i'r cyfeillion yn Highland Place am fwyd a diod a chroesaw.

S.J.

CYFARFOD CHWARTEROL Y GYMDEITHAS GYMREIG.

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol y Gymdeithas Gymreig yn Graig, Trebanos, nos Fercher a dydd Iau, Hydref 30ain a'r 31ain. Pregethwyd y noson gyntaf gan y Parchn. W. Alfa Richards a D. G. Rees, Bridgend. Am 10.30 pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn; yn y prydnawn Pregeth y Pwnc gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin a'r Ciliau; yn yr hwyr gan y Parchn. Hathren Davies, Cefn, a John Davies, Alltyplaca. Dechreuwyd y cwrdd nos Fercher gan Mr. H. C. Jones, myfyriwr; bore Iau gan y Parch. John Davies, Alltyplaca; prydnawn gan Mr. Davies, myfyriwr o Gaerfyrddin; yn yr hwyr gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn.

Cafwyd cyfarfod ardderchog yn mhob ystyr, er i ragolygon y cyfarfod edrych yn dywyll iawn oherwydd marwolaeth y Parch. Wm. James, B.A. Ond trwy yr ystorm torodd gwawr oleu, a gwenodd y nef a'r ddaear ar yr holl wasanaeth—er fod swn hiraeth a galar yn mhob odfa, a theimlai pawb fod tywysog yr enwad wedi huno.

Bore Iau cyfarfu y Pwyllgor o dan lywyddiaeth y Cadben Davies. Yn absenoldeb yr ysgrifenydd, dewiswyd y Parch. Lewis Williams i gymeryd y cofnodion. Ystyriwyd y pwnc o gyplysu eglwysi gweinion o dan yr un weinidogaeth, ond gohiriwyd y mater er ymgynghori â'r eglwysi hyny. Pasiwyd fod *grant* o dair punt yn cael ei wneud tuag at Panteg. Ystyriwyd y priodoldeb o ail gychwyn Trysorfa Gynorthwyol y Bobl Ieuainc, a gohiriwyd y mater er i'r eglwysi roddi ystyriaeth iddo erbyn cwrdd y Pasc. Cynhelir Cyfarfodydd Chwarterol y Pasc yn Alltyplaca, a'r Parch. M. Evans, Highland Place, i bregethu y bregeth. Pasiwyd ein bod yn datgan ein cydymdeimlad llwyraf â'r ymdrech wneir i ledaenu egwyddorion Cristionogaeth ryddfrydig yn Ngogledd Cymru. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Mrs. James, Brynhyfryd, a'r teulu yn eu tristwch, a'n bod yn datgan ein gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth mawr wnaeth Mr. James i Undodiaeth yn Nghymru.

ALFA.

MARWGOFION.

AWST 9, yn 80 oed, bu farw Margaret, anwyl briod William Thomas, Pantyronen, ger Llanwnen. Heblaw ei phriod, gadawodd un mab ac amryw chwiorydd i alaru ar ei hol. Cydymdeimlir yn fawr a'n hen gyfaill adnabyddus yn ei unigedd. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Iau canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu.

MEDI 20, yn 79 oed, Elizabeth, anwyl briod David Evans, Pantcoch Cottage, gynt o Graig, Talgareg. Cafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, ond dygodd henaint lesgedd a gwendid gydag ef. Benyw dawel ydoedd,—bywyd tawel oedd ei bywyd —ond yr oedd yn un o'r cymeriadau hyny ag y siarada y cymydogion yn dda am dani. Nodweddid ei bywyd gan ddidwylledd a chymwynasgarwch—rhinweddau a enillasant barch mawr iddi. Gadawa briod, un o aelodau henaf eglwys y Bwlch, i alaru ar ei hol, a llawer o berthynasau. Claddwyd y Llun canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan E. O. Jankins a J. G. Davies.

HYDREF 20, yn 11 mis oed, David, mab bychan Gwilym a Jane Evans, Glynmeirch, Trebanos. Claddwyd ei babell o glai y Mercher dilynol wrth Gellionen. Gweinyddodd y Parch. W. Alfa Richards yn doddedig a thyner. Bydded i'r rhieni a'r plant i gyd i ymfoddloni yn y syniad fod David bach mewn gwlad well.

Rhoi blodyn ar fedd blodyn
Wnawn mewn galarus awr ;
Ac ar ei ddail rhown ddeigryn,
Fel gwlithyn blaen y wawr.

BANOS.

Mae angel bach yn eisieu,
Del oedd ei gwmni ef ;
Ehedodd i'r boreuau,
At engyl-gor y nef.

ALFA.

HYD. 23, cymerodd le gladdedigaeth James Lloyd Jones, brawd y Parch. Jenkin Lloyd Jones, golygydd *Unity*, ac arolygydd y Lincoln Center, Chicago, Unol Dalaethau America. Ffermwr oedd Mr. Jones wrth ei alwedigaeth, ac yn arolygydd amaethyddol sefydliad addysgol Hillside Home School, Hillsdale, Wis. Daeth Mr. Jones i gyfarfod a'i angeu drwy ddamwain. Yn agos i'w gartref syrthiodd peiriant dyrnu trwm drwy bont gan niweidio dau o'r dwylaw yn angeuol, a rhuthrodd Mr. Jones yno i gynorthwyo, ac yn ddamweiniol niweidiwyd ef yn gorff-orol mor ddrwg fel y bu farw yn mhen tri diwrnod. Daeth ei gymydogion a'i gydnabod o fewn cylch 40 milldir i'w angladd ; Llywydd Prifysgol Wisconsin, Llywydd Bwrdd Rheolwyr a Henry a Russell o Adran Amaethyddol y Brifysgol, yn nghyd a nifer fawr. Gweinyddai y Parch. Mr. Hogan, Spring Green, a'i frawd, y Parch. Jenkin Lloyd Jones yn y gwasanaeth crefyddol. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn defnyddiol yn ei amryw gylchoedd. Bu yn llywydd Bwrdd Arolygwyr y plwyf. Gwnaeth waith rhagorol hefyd, a bu ganddo lawer i'w wneud i adeiladu a hyrwyddo y sefydliad i ymgeleddu y tlawd a'r diamddiffyn. Teimlir colled fawr ar ei ol yn yr ardal. Gobeithiwn gyhoeddi darlun o'r ymadawedig yn y rhifyn nesaf.

TACHWEDD 8, yn dair a haner mlwydd oed, Gwladys Irene, geneth fach William a Jane Bowen, Fair View, Trebanos. Claddwyd y dydd Mercher canlynol yn mynwent eglwys Sant Pedr, Pontardawe. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni parchus yn eu galar trwm ar ol eu hunig blentyn prydferth.

" Fy nhad a mam, nac wylwch mwy,
Ond llawenhewch yn nghyd ;
Angyles wyf uwch ing a chlwy',
Mae'r nef yn well na'r byd."

BANOS.

Aeth Gwladys fach i bertach byd—
Fel y gwanwyn hyfryd, [a'i gwen
I ddiauaf haf o hyd,
I iach drigfan uwch drygfyd.
ALVA.

TACHWEDD 8, yn 3, Monk Street, Rees Rees, yn 68 oed, gan adael gweddw oedranus ac amryw blant, oll wedi tyfu, i alaru eu colled. Y Mawrth canlynol claddwyd yn y Cemetery, y Parch. D. Silyn Evans (A.), yn gwasanaethu yn y ty, a'r Parch. M. Evans ar lan y bedd. Brodor oedd yr ymadawedig o Ddyffryn Aeron, ond treuliodd y 25 mlynedd diweddaf ei oes yn Aberdar. Yr oedd yn ddiwyd, diniwed iawn, a mynychodd yr addoliad yn yr Hen Dy Cwrdd am hir flynyddau.

"Ein ceraint gawn ar adfer oll ;
Cawn, a bydd mwy nid ant ar goll."

TACHWEDD 10, yn 58 oed, Sarah Davies, Neuadd, Pantdefaid. Gwanaidd o gorph fu yr ymadawedig ar hyd y blynyddoedd, ond cyflawnai ei gorchwylion hyd yn ddiweddar. Er ys peth amser hi ofalai am gapel Pantdefaid, a gwnelai ei gwaith i foddlonrwydd cyffredinol pawb, a blin oedd genym golli ei gwasanaeth. Fel cymydoges yr oedd iddi air da gan bawb. Nerth gaffo ei hunig ferch yn ei thrallod a'i galar i wneud ei rhan hithau mewn bywyd yn ganmoladwy. Gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi yn ymyl ei phriod yn Mhantdefaid, a gwasanaethwyd gan y gweinidog ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

TACHWEDD 12, yn 52 oed, David Jones, anwyl fab Daniel Jones, Drefach, ger Llanwnen. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu yn mynwent eglwys Llanwnen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. D. Evans, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Lewis, yr offeiriad. Yr oedd yr ymadawedig wedi dioddef cystudd mawr am flynyddau lawer yn dawel a dirwgnach. Treuliodd ei oes mewn heddwch a dynion a Duw, a gellid yn briodol gymhwyso geiriau ein Harglwgdd ato, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw."

TACHWEDD 13, yn 19 oed, John Richard Evans, Prospect Place, Ponttwelly, Llandyssul. Blin a thrist i galon ac yspryd ydyw gweled ein pobl ieuainc addawol yn cael eu tori i lawr gan law angeu. Un o'r cyfryw ydoedd Johnny, fel yr adnabyddid ef gan ei gyfeillion. Ar ol gorphen ei addysg yn anrhydeddus yn Ysgol y Sir, a phan ar ddechreu ar waith ei fywyd, gwelwyd yn fuan mai nid yma oedd y gwaith hwnw i gael ei wneud, a thorwyd ef i lawr yn gynar. Ond bu yma yn ddigon hir i ni allu canfod ei amcanion uchel, ei ffyddlondeb gwresog gyda'r Ysgol Sul ac fel aelod o gapel y Graig. Y nodweddion hyn fyddo yn fwy amlwg yn ein pobl ieuainc. Y dydd Llun dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Penybont, pryd gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins a D. Stephan Williams, Penybont. Nerth a gaffo ei rieni a'i chwaer dan y brofedigaeth.

TACHWEDD 15, yn 37 mlwydd oed, John Spencer Lloyd, Emporium, Treorchy. Efe oedd cyntafanedig blentyn John a Hannah Lloyd, Glyncoch, plwyf Llandyssul. Prydnawn y dydd Mawrth canlynol gosodwyd yr hyn oedd yn aros o hono i orphwys yn nghladdfa gyhoeddus y lle. Gwasanaethwyd yn fyr yn y ty gan y Parch. Thomas Davies, Bethlehem (M.C.), gweinidog y teulu, yr hwn hefyd gymerodd ran ar lan y bedd. Yn ei gynorthwyo yr oedd y Parchn. D. Rhoslwyn Davies ; M. Evans, Highland Place, Aberdar ; a William Lewis (M.C.), Cwmparc. Heblaw amryw o weinidogion y lle a dynion blaenllaw y gymydogaeth, gwelwyd yn bresenol yn mhlith dieithriaid eraill y rhai canlynol :— Mri. L. N. Williams, Aberdar ; John Lewis a Hacker, Pontypridd ;

y Parchn. D. G. Rees, Penybont, a J. P. Kane, Dowlais. Achos ei farwolaeth oedd twymyn y *typhoid*, yr hon sydd ar hyn o bryd yn peri llawer o flinder i drigolion y lle. Ni chafodd ein cyfaill ond cystudd byr iawn. Rhyw bum wythnos oedd wedi mynd heibio er pan y dychwelodd o ardal ei enedigaeth at yr hon yr amlygai bob amser deimladau cynes iawn. Dechreuodd deimlo peth anhwyldeb bron yn union ar ol dyfod gartref, ond meddianai yspryd mor uchel a sel mor fawr at bob math o weithgarwch fel nas gallai aros yn y ty pan mewn gwirionedd y dylasai wneud hyny. Y tro diweddaf y mae cof genym ei weled oedd yn nghyfarfod diolchgarwch Glanrhondda, prydnawn Sul, Hydref 20fed. Yr oedd yr hin yn anffafriol, a dywedai yr adeg hono ei fod yn ofni mai mewn anufudd-dod i ddeddfau ei iechyd yr oedd wedi anturio allan o'i ystafell. Gwaelodd yn gyflym ar ol hyn, ac er ei fod ef ei hun yn ceisio gosod golwg obeithiol ar bethau er mwyn cysuro ei deulu a'i gyfeillion gellid gweled fod llaw angeu yn aredig yn ddwfn i'w gyfansoddiad a phan ddaeth deg o'r gloch boreu dydd Gwener, fel y crybwyllwyd uchod, rhyddhawyd ei ysbryd o adfeilion y corph, a hedodd i arall ac esmwythach fyd. I'r rhan fwyaf o'i gydnabod, yr oedd y newydd yn wir annisgwyliadwy a pherodd syndod a thrallod trwm i bawb. Undodwr oedd Mr. Spencer Lloyd—gonest a gwyneb-agored. Meddianai alluoedd meddyliol o'r radd uwchaf, syniadau eang a dyrchafedig, a mwy na'r cyfan, nerth ac argyhoeddiad i draethu ei farn ar bob achlysur pan fyddai galw am dano. Yr oedd yn ysgolor gwych, darllenwr helaeth, meddyliwr clir, ac yn berchenog ar un o'r llyfrgelloedd goreu a llawnaf welwyd gan leygwr yn un man erioed. Yr oedd ei waith mewn cysylltiad a'r achos Undodaidd yn Nghymru bron yn anmhrisiadwy a chafodd ei ddwyn oddiarnom yn anterth ei ddefnyddioldeb. Efe oedd yn un o'r ffyddloniaid ydynt wedi ymgymeryd a'r gwaith o glirio'r ddyled sydd wedi aros am gyhyd o amser ar gapel Glanrhondda, a da oedd genym weled ei gydlafurwr selog a ffyddlon, Mr. L. N. Williams, Aberdar, yn bresenol yn yr angladd. Un o'r pethau diweddaf wnaeth Mr. Spencer Lloyd ar ei wely angau oedd rhoddi'r holl gyfrifon yn nglyn a'r symudiad yn nwylaw ei briod hoff ac anwyl sydd wedi ei gadael i alaru ar ei ol. Do, bu farw yn ei waith. Pydded i'w esiampl odidog fod yn symbyliad i eraill gymeryd y baich i fyny a'i ddwyn yn awr i ddiwedd anrhydeddus. Nid oedd ei gymwynasgarwch a'i ddefnyddioldeb, fodd bynag, wedi eu cyfyngu i'w enwad bach ei hun, a thystiolaethai y dorf luosog ddaeth yn nghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo, ei fod yn allu er daioni yn y lle. Y tro diweddaf y cefais y pleser o'i weled yn fyw, a hyny ond ychydig ddiwrnodau cyn ei farwolaeth, soniai am y trefniadau yn nglyn ag ymweliad Sarnicol i draddodi darlith er cynorthwyo rhywun methiedig yn y lle. Un engraifft yw hon o lawer ellid adrodd am dano. Ei galon garedig ef oedd ffynonell amryw o achosion daionus, a chaiff llawer golled anadferadwy ar ei ol. Ond y mae yma un cylch wel ei eisieu yn fwy na neb arall, sef ei deulu bach ei hun. Gadawa weddw a phump o rai bychain i alaru ar ei ol. Hefyd, fam a brodyr a chwiorydd, yn nghyd a llawer o berthynasau eraill llai agos. Y mae ein cydymdeimlad llwyraf yn aros gyda'r oll. Bydded i law dyner Duw sychu eu dagrau yn araf, a chyfeirio eu gobaith tua'r nef i'r man lle mae ef yn awr yn byw.

"Nothing of him that doth fade,
But doth suffer a sea-change,
Into something rich and strange."

J.P.D.

MANION AC HANESION.

BRONDEIFI.—Bydd yn llawenydd gan lawer i glywed am lwyddiant Miss S. A. Williams a Mr. J. C. Williams, plant Mr. a Mrs. W. Hefin Williams, Llanbedr, a dau aelod ffyddlawn o eglwys Brondeifi, yn enill tystysgrifau yn y *Bristol University Day Training Department*, ac ar benodiad y blaenaf fel athrawes i ysgol Senghenydd, a'r olaf fel athraw i ysgol Trelewis. Ein llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da am ddyfodol cysurus.

RHYDYGWIN A CHILIAU-AERON.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf ar y nosweithiau Mercher a Iau, Tachwedd y 6fed a'r 7fed. Y pregethwr oedd y Parch. W. Alva Richards, Trebanos. Daw y bardd i'r amlwg yn mhregethau Mr. Richards, a chawsom ganddo bregethau o gyfansoddiad tlws, gyda thraddodiad hyawdl. Gwnaed casgliad yn Nghiliau tuag at Gymdeithas yr enwad yn Llundain.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Blin genym anghofio hysbysu llwyddiant y cyfaill caredig, Mr. H. H. Morgan, yn chwareu *cornet* yn Abertawe. Daeth allan yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiweddaf. Hefyd llawen genym am lwyddiant newydd arall o eiddo y llanc a'r cerddor ieuanc blaenfynedol, Master J. Emlyn Hopkin, yn cipio y brif wobr a'r clod mewn eisteddfod bwysig gynhaliwyd ychydig yn ol yn y Sketty, ar y berdoneg. *Well done*, fechgyn.

Nos Sul, Tachwedd 3ydd, yn y Graig, pasiwyd pleidlais gyhoeddus (trwy i'r gynulleidfa sefyll ar ei thraed), o gydymdeimlad a gweddw a theulu galarus y diweddar Barch. W. James, B.A., Llandyssul. Heddwch i lwch un o feddylwyr mwyaf ein cenedl.

Cawsom fwynhad anarferol wrth wrando ar Mri. Lewis Morgans, Clydachardawe, a Toriel Williams, Bonymaen, Llansamlet, yn pregethu. Os cyll yr enw ei afael, amlwg yw fod syniadau eangfrydig yn cael sylw y tu allan i "glawdd offa" ein "cylch cyfrin" ni. "Mae y llythyren yn lladd, ond yr yspryd sydd yn bywhau."

PANTEG A RHYDYPARC.—Dydd Sul, Hydref 22ain, talodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ymweliad â'r ddau le uchod. Pregethodd yn y boreu yn Panteg, ac yn y prydnawn yn Rhydyparc. Yr oedd y capel yn orlawn, a llawer yn gorfod aros tu allan o ddiffyg lle, a da iawn ydoedd fod yr hin mor ddymunol. Cafwyd ganddo bregeth orchestol ac ymarferol, fel ag yr oedd pawb, oddieithr ambell i *gritic*, yn ei chanmawl. Y prif fai gan y lluaws yn erbyn y bregeth (gan ei bod mor ragorol o dda) ydoedd, ei bod hytrach yn fer. Mewn gair, felly mae pob pregeth dda, a rhai gwael lawer yn rhy hir. Beth bynag, yr oedd Mr. Davies yn ei hwyliau goreu, a'r gwrandawiad yn astud, a phawb wedi cael eu llwyr foddhau, tuhwnt i'w disgwyliadau goreu. Yn mysg y gynulleidfa luosog yr oedd ein hen gyfaill ac un o brif golofnau yr achos yn Rhydyparc yn bresenol, sef Mr. Thomas, Castelldraenog, pa un sydd dros 86 oed, a dymunwn iddo ddyddiau lawer eto, a bydded i'w blant feddianu deuparth o'i yspryd gwrol dros yr achos Undodaidd. Yna cychwynasom yn ol dros riwiau serth a bryniau moelion, a chyrhaeddasom Panteg yn amserol, a chafwyd eto gan Mr. Davies bregeth llawn cystal a'r blaenorol. Mewn gwirionedd credaf nas gall Mr. Davies bregethu yn wael, oherwydd mae yr oll a glywais ganddo yn dda. Dymunwn iddo o eigion calon brydnawnddydd yn llawn o bob bendith i wneud gwasanaeth pellach i'r achos Undodaidd yn y wlad, trwy dalu ymweliadau ag eglwysi bychain.

CAPELYGROES. — Yn ddiweddar mae cynulleidfa Capelygroes, trwy garedigrwydd Miss Jones, perchen-

og ystad Llwynygroes, wedi cael ychwanegiad o yn agos i haner cyfer o dir at y fynwent. Yr ydym yn awr wrth y gwaith o'i sychu a gwneud y cloddiau o'i hamgylch yn ddiogel. Cyn ei gwblhau tybiwn y bydd oddeutu £30 i £40 yn eisieu, yn ychwanegol at yr hyn sydd mewn llaw eisoes. Credwn fod llawer tu allan i'r gynulleidfa, sydd a pherthynasau iddynt yn gorwedd yn yr hen fynwent, yn barod i gyfranu tuag at y draul. At y cyfryw y gwneir yr apel hwn trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD. Derbynir cyfraniadau yn ddiolchgar gan y Trysorydd, Mr. D. Morgan, Moelfre ; gan yr ysgrifenydd, Mr. D. Jenkins, Blaenwaunganol; neu gan y Parch. D. Evans, y gweinidog

Yn y cwrdd diolchgarwch yn y lle uchod ar y 4ydd o Dachwedd, pregethwyd gan y Parch. Alva Richards. Daeth cynulleidfa luosog iawn yn nghyd i'w wrandaw. Casglwyd £1 7s. 4c. tuag at y gymdeithas Seisnig.

CRIBYN.—Y pregethwyr yn y cyrddau diolch ar y 5ed o Dachwedd oedd y Parchn. Alva Richards a J. Davies. Pregethwyd yn oedfa'r prydnawn gan Alva, ac yn yr un hwyrol gan y ddau. Yr oedd y capel yn llawn o wrandawyr astud. Swm y casgliad at y gymdeithas Seisnig a'r treuliau oedd £2 3s. 10c.

PENYBONT. — Nos Fercher, yr 20fed o Dachwedd, ar gais pwyllgor y Llyfrgell Rydd darlithiwyd yn *lecture hall* y sefydliad uchod gan y Parch. D. G. Rees ar "Iolo Morganwg : Saer Maen, Bardd, ac Hynafiaethydd." Dywedodd y cadeirydd ar ol y ddarlith, ei fod yn adlewyrchiad anffafriol ar drigolion Penybont fod yn rhaid iddynt ofyn i un o Sir Aberteifi i draethu ar un a anwyd ac a fagwyd yn eu hardal eu hunain, ac hefyd un o feibion mwyaf Morganwg. Cyn diwedd y cyfarfod gwnaed yn hysbys y ffaith ddyddorol, er i Iolo farw Rhagfyr 15fed. 1826, fod yna hen wraig cant namyn pump oed, yn byw yn Aberkenffig, sydd yn cofio yr hen fardd yn hollol glir.

Y DIWEDDAR W. JAMES.—Yn ychwanegol at lu mawr o lythyrau oddiwrth bersonau unigol yn dadgan eu cydymdeimlad â Mrs. James a'r teulu, derbyniwyd y canlynol oddiwrth eglwysi :—Pontypridd ; Gelli-onen a'r Graig ; Highland Place a Hen Dy Cwrdd, Aberdar ; Llwynrhydowen ; Bwlchyfadfa ; Abertawe ; Graig, Llandyssul ; Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig ; hefyd oddiwrth Fwrdd Goruchwylwyr Ysgol Sirol Llandyssul, a'r Ladies' United Guild Llandyssul.

ADGOFION WATCYN WYN. — Y mae Cwmni Cyhoeddiadol ac Addysgol Merthyr newydd gyhoeddi "*Adgofion Watcyn Wyn*," ac y mae genym achos diolch iddynt hwy ac i Gwili am hyn. Yr oedd Watcyn Wyn yn un o'r cymeriadau mwyaf gwreiddiol ac athrylithgar fagodd ein cenedl erioed, ac oherwydd hyn byddai yn dda genym gael adgofion Gwili ei hun am dano. Gwr ydoedd efe a synwyr cyffredin ei lon'd, a digrifwch diniwed megis yn byrlymu dros ei enau. Yn y gyfrol fechan hon ni a'i cawn megis ag yr oedd. Adrodda ei helyntion o'i febyd i'w fedd. Ar lan ac ar lawr ydyw'r hanes hwnw, ond drwy'r cyfan mae'r yspryd boddlongar ar bethau megis ag y maent yn rhedeg o dan y cyfan. Y mae y gyfrol fechan yn werth y deunaw ceiniog ofynir am dani, os am ymgydnabyddu ag un o lenorion goreu Cymru.

Derbyniwyd y canlynol at ddileu dyled Capel y Pentre. — Holbrook Gasgell, Esq., 20*l* ; Sir W. B. Bowring, 5*l* ; Mrs. Charles Harding, 5*l* ; W. D. Cliff, Leeds, 2*l* 2s. ; Anon. Birmingham, 2*l* 2s. ; C. C. Grundy, 2*l* 2s. ; D. Tyssul Davies, Aberdare, 1*l* 1s. ; W. Haslam, Bolton, 1*l* ; Miss K. B. Thomas, Bristol, 1*l* 1s. —*Pw barhau.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES)
FREE ON REQUEST. . . . .

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.